Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# Polisi a Rhestr Cadw a Gwaredu

## Diweddarwyd Mawrth 2021

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Rheswm dros newid |
|---|---|---|---|
| 1.0 | 21/11/12 | Rachel Boissinot | |
| 2.0 | 16/02/17 | Claire Bryant | Adolygu a Diwygio i ddangos newidiadau yn y strwythur staffio |
| 2.1 | 30/03/17 | Claire Bryant | Diwygio yn unol ag arweiniad allanol |
| 2.2 | 11/04/17 | Claire Bryant | Prawfddarllen gan reolwr |
| 2.3 | 10/05/17 | Claire Bryant | Ychwanegwyd cyfnod cadw ar gyfer ceisiadau ar gyfer swyddi gwag |
| 2.4 | 15/10/19 | Cheryl Gayther | Gwnaethpwyd ychwanegiadau i adlewyrchu'r adran Ystadau |
| 2.5 | 31/03/21 | Cheryl Gayther | Diwygiwyd y cyfnod cadw ar gyfer cais gwrthrych am wybodaeth yn unol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ag amserlen Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu Dyfed - Powys (SCHTh) wedi ymrwymo i weithredu mewn modd agored a thryloyw.

1.2 Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, rhaid i SCHTh sicrhau bod ei chofnodion yn barod i fodloni'r safonau sydd yn ofynnol i ddelio â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn effeithiol.

1.3 Bwriad y Polisi a Rhestr Cadw a Gwaredu hwn yw cefnogi fframwaith llywodraethu corfforaethol SCHTh ac mae yn cydymffurfio â'r safonau sydd yn ofynnol gan y Comisiynydd Gwybodaeth, gan ystyried y gofynion a datblygiadau cyfreithiol, amrywiol a ddaeth yn sgil gweithredu argymhellion Bichard.[1]

## 2. Pwrpas

2.1 Pwrpas y Polisi a'r Rhestr hon yw:

- Atal cofnodion rhag cael eu dinistrio cyn amser
- Rhoi cysondeb o ran cadw / dinistrio
- Gwella rheoli cofnodion

## 3. Polisi Cadw a Gwaredu

3.1 Dylid cadw pob cofnod a ddeil SCHTh am y cyfnodau a nodir yn y Rhestr atodedig. Bydd y Swyddogion Cymorth yn gyfrifol am sicrhau bod pob cofnod a ddeil gan SCHTh yn cael eu cadw am yr amser priodol a'u bod yn cael eu dinistrio yn ôl yr amser a nodir yn y Rhestr cadw atodedig.

3.2 Nodir pob cyfnod cadw mewn blynyddoedd cyfan a chychwyn o ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae'r cofnodion yn berthnasol iddi. Dylid gwaredu cofnodion drwy rwygo / drefnu i'w casglu fel gwastraff cyfrinachol i'w dinistrio gan y corff priodol. Dylai hyn gynnwys pob copi wrth gefn mewn cyfryngau eraill.

*3.3 Noder: Pryd bynnag bydd posibilrwydd o gael cyfreitha neu gais dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ni ddylid diwygio na gwaredu'r cofnodion sydd yn debygol o gael eu heffeithio nes bydd y bygythiad o gyfreitha wedi dod i ben neu nes bydd y prosesau apelio dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wedi cael eu disbyddu.*

3.4 Bydd Swyddogion Cefnogi SCHTh yn cynnal arolwg chwe mis o bob cofnod i benderfynu pa gofnodion sydd yn barod i'w dinistrio. Cyflwynir adroddiad wedyn i'r Pennaeth Staff. Bydd yr adroddiad yn nodi cofnodion sydd yn barod i'w dinistrio gan gynnwys gwybodaeth ar y testun a dyddiadau diweddaraf gohebiaeth/ cofnod yn y ffeil. Wedi ystyried y wybodaeth hon, bydd y Pennaeth Staff yn penderfynu pa gofnodion caiff eu dinistrio yn unol â'r cyfnodau cadw a nodir yn Rhestr y Polisi hwn a pha gofnodion y dylid eu cadw.

3.5 Nid yw'r cyfnod cadw a nodir yn y Rhestr atodedig yn golygu y dylid dinistrio'r ddogfen neu'r wybodaeth yn ddieithriad ar ôl y dyddiad

[1] Adroddiad Ymchwiliad Bichard, 2004 (http://dera.ioe.ac.uk/6394/1/report.pdf)

penodedig. Mae'r cyfnod cadw'n pennu'r dyddiad olaf i ail-gloriannu'r wybodaeth hon. Ar ddiwedd cyfnod cadw bydd y prif ddefnyddiwr, gyda'r Swyddogion Cymorth yn:

- gwerthuso 'gwerth' busnes y ddogfen / wybodaeth; a
- naill ai dinistrio'r ddogfen / wybodaeth, neu os bydd yn berthnasol, gosod cyfnod cadw pellach.

3.6 Lle bo'n briodol, gellid cadw gwybodaeth mewn ffyrdd eraill, fel micro-fiche, tâp magnetig, disg cyfrifiadur neu gadw i ffwrdd o'r lleoliad. Nid yw'n angenrheidiol bod gwybodaeth sydd yn cael ei chadw felly ar gael yn 'syth.' Bydd sicrhau argaeledd drwy systemau SCHTh yn ddigon.

**4. Dull Gweithredu Arferol**

4.1 Mae hyn yn berthnasol ar gyfer cofnodion sydd ddim angen eu cadw o gwbl. Gellid dinistrio gwybodaeth sydd wedi dyblygu, ddim o bwys, neu o ddefnydd tymor byr drwy'r Dull Weithredu Safonol, gan gynnwys:

- Slipiau cyfarch
- catalogau, cylchgronau, cylchlythyron a chylchgronau gwaith
- slipiau negeseuon ffôn
- cardiau gwrthod gwahoddiadau
- e-negeseuon neu nodiadau dibwys nad ydynt yn perthyn i fusnes y Comisiynydd
- ceisiadau am wybodaeth am gyflenwadau fel mapiau, cynlluniau neu ddeunydd marchnata
- hen restrau dosbarthu
- papurau gweithio sydd yn arwain at adroddiad terfynol
- deunydd wedi'i ddyblygu a'i ddisodli fel papur ac amlenni, llawlyfrau, drafftiau, llyfrau cyfeiriadau a chopïau cyfeirio o adroddiadau blynyddol.

4.2 Gellid dinistrio'r cofnodion hyn i gyd ac eithrio lle gellid eu defnyddio yn dystiolaeth i hysbysu penderfyniad.

**5. Monitro parhaus ac adolygu'r Polisi a'r Rhestr**

5.1 Adolygir y Polisi a Rhestr hwn yn flynyddol. Beth bynnag, os cwyd meysydd pryder neu newidiadau i ddeddfwriaeth yn ystod y flwyddyn, bydd y Pennaeth Staff yn cynghori'r Comisiynydd ar sail ad-hoc mewn perthynas ag unrhyw newidiadau sydd yn ofynnol i'r Polisi a Rhestr.

## ATODIAD 1: RHESTR GADW


1. Busnes SCHTh Dyfed-Powys tudalen 1

2. Rheoli a Gweinyddu tudalen 2

3. Materion Cyfreithiol a Chytundebau tudalen 5

4. Adnoddau Dynol tudalen 7

5. Rheoli Ariannol tudalen 9

6. Rheoli Eiddo a Thir tudalen 11

7. Cyffredinol tudalen 11

1. **Busnes SCHTh Dyfed-Powys**

| Pwrpas | Cofnodion | Cadw | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| Penodi Prif Swyddogion yr Heddlu | Hysbysebion | 2 flynedd o ddyddiad yr apwyntiad | |
| | Ffurflenni cais<br>Adroddiadau cyfweliadau<br>Ffeiliau Personél | 6 blynedd o ddyddiad y taliad pensiwn diwethaf | |
| Prosiectau Adolygu Gwerth Gorau | Cofnodion, agendau<br>Dogfennaeth ategol | 5 mlynedd ar ôl y gweithrediad diwethaf | |
| Cwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl | Gohebiaeth | 8 mlynedd ar ôl y gweithrediad diwethaf | |
| Cwynion ac ymholiadau a gyfeirir i SCHTh | Gohebiaeth<br>Adroddiadau cryno<br>Manylion ymchwilio cwynion | 6 mlynedd ar ôl y gweithrediad diwethaf | Yn unol â pholisi Heddlu Dyfed-Powys |
| Cynllunio ac adrodd corfforaethol | Cynlluniau plismona cynlluniau strategol<br>Adroddiadau blynyddol | Parhaol | |
| Diswyddo'r Prif Gwnstabl | Ymddiswyddo, diswyddo, gollyngdod, marwolaeth, ymddeol | 6 blynedd ar ôl cau, neu os telir pensiwn, 6 blynedd ar ôl y taliad pensiwn | |
| Cyfarfodydd allanol (lle nad yw'r cofnod yn eiddo i SCHTh) | Cofnodion, agendâu, adroddiadau ac argymhellion, dogfennau ategol, logiau penderfyniadau | Ar ôl i ddefnydd ddod i ben | Arfer cyffredin |
| Cofnodion gwirfoddolwyr | Cofnodion, agendâu, adroddiadau, Cofrestrau ymweliadau | 2 flynedd | |
| | Manylion gwirfoddolwyr | 2 flynedd ar ôl gorffen/apwyntiad dod i ben | |
| | Llawlyfr | Nes cael ei ddisodli | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfarfodydd partneriaeth, asiantaeth ac allanol (lle mai SCHTh piau'r cofnod) | Cofnodion, agendâu, adroddiadau ac argymhellion, dogfennau ategol, logiau penderfyniadau | 6 blynedd ar ôl y gweithrediad diwethaf | Arfer cyffredin |
| Archwiliadau statudol, adolygiadau ac adroddiadau archwilio allanol | Adroddiadau Arolygwyr ei Mawrhydi | 1 blwyddyn ar ôl cwblhau gweithrediadau | Arweiniad Cenedlaethol gan Gymdeithas Prif swyddogion Heddluoedd |
| | Adroddiadau Mewnol / allanol archwilwyr | 6 blynedd ar ôl y gweithrediad diwethaf | |
| Ffurflenni statudol | Adroddiadau i'r Llywodraeth Ganolog | 7 mlynedd ar ôl cau | |
| Gweithgorau / Grwpiau llywio | Cofnodion, agendâu ac adroddiadau / logiau penderfyniadau | 3 blynedd ar ôl y gweithrediad diwethaf | |
| Cyfarfodydd penderfynu a phwyllgor archwilio | Agenda, cofnodion, adroddiadau | Parhaol | |

## 2. Rheoli a Gweinyddu

| Pwrpas | Cofnodion | Cadw | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| Dyddiaduron a chalendrau | Dyddiaduron / calendrau electronig ac â llaw | 3 blynedd | |
| Rheoli gwybodaeth | Mynegon ffeil | Parhaol | |
| | Rheoli trosglwyddo cofnodion i'r archifau | Parhaol | |
| | Crynodeb o'r ymatebion i ymholiadau | 6 blynedd | |
| | Cofnodion gwaredu | Parhaol | |
| | Adroddiadau / Gohebiaeth am benderfyniadau a gweithredoedd y Comisiynydd | 6 blynedd | |
| | Ymatebion arferol i ymholiadau | 2 flynedd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gohebiaeth gyffredinol / e-byst, ffacsiau *Ffeiliau (papur) a Phlygellau (electronig gan gynnwys e-byst) sydd yn cynnwys cofnodion heb broses na phwrpas iddynt yn y Rhestr cadw | Archifo am flwyddyn Dinistrio os na fydd defnydd pellach. Ni ddylai'r un ffeil fod ar agor am fwy na 5 mlynedd a gellid ei chau ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod yna ar sail monitro defnydd ac ychwanegiadau. Os ei chau a bod gweithgarwch newydd dylid creu cyfrol newydd i'r ffeil a dod â chyfnod cadw'r hen gyfrol yn unol â'r gyfrol newydd. | |
| Marchnata | Datblygu a hyrwyddo digwyddiadau'r Comisiynydd | 2 flynedd | |
| | Gwybodaeth am y Comisiynydd | Ar ôl cael eu disodli | |
| Cysylltiadau â'r cyfryngau | Proses rhyngweithio gyda'r cyfryngau | 3 blynedd | Yn unol â pholisi Heddlu Dyfed-Powys |
| | Cyhoeddiadau'r cyfryngau am y Comisiynydd/ SCHTh (toriadau papur newydd, adroddiadau'r cyfryngau) | 5 mlynedd oni bai am faterion hanesyddol | |
| Rheoli Swyddfa | Cytundebau gyda chyflenwyr | Cytundeb wedi'i arwyddo 6 blynedd o ddiwedd y cytundeb. Pob gwaith papur perthynol arall 1 flwyddyn a diwedd y cytundeb | Arweiniad yr Archifdai Cenedlaethol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Datblygu polisi | Polisïau<br>Cyfarwyddiadau/ gweithdrefnau polisïau<br>Siartiau sefydliad<br>Archebion sefydlog / rheoliadau ariannol | Parhaol | Arfer Cyffredin |
| | Ymatebion arferol ar bolisïau neu weithdrefnau (Deunydd wedi'i argraffu, llythyron) | 2 flynedd ar ôl i ddefnydd gweinyddol dod i ben | |
| Adolygu polisi | Arolygu cynlluniau strategol / polisïau neu weithdrefnau i asesu a ydynt yn cydymffurfio â chanllawiau | Dinistrio 5 mlynedd ar ôl cau | Arfer Cyffredin |
| Cyhoeddiadau | Proses dylunio a gosod gwybodaeth i'w chyhoeddi<br>Gwaith cyhoeddedig y Comisiynydd | Dinistrio 3 blynedd o'r gweithrediad diwethaf<br>Noder y dylai un copi o'r argraffiad gwreiddiol fynd yn uniongyrchol i'r archif. Dylid dinistrio pob copi arall ar ôl i ddefnydd gweinyddol ddod i ben | Arfer Cyffredin |
| Ymgynghori â'r cyhoedd | Ymgynghoriad ar ddatblygiad polisïau arwyddocaol | 5 mlynedd ar ôl cau | Arfer Cyffredin |
| | Ymgynghoriad ar ddatblygiad is bolisïau | 1 flwyddyn ar ôl cau | |
| | Nodiadau cyfarfod, cofnodion, gohebiaeth, cofnodion Grŵp Ymgynghorol Annibynnol, papurau ategol a chyfathrebu | 2 flynedd ar ôl cau | |
| Rheoli Ansawdd a Pherfformiad | Gwybodaeth Rheoli Perfformiad / Adroddiadau | 2 flynedd | Yn unol ag Arweiniad Cenedlaethol Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu |
| Cofnodion heb | Cofnodion sydd ddim yn cefnogi proses | Dinistrio cyn gynted â | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| strwythur | busnes h.y. nid oes lle iddynt mewn strwythur ffeilio presennol a fydd dim yn cael eu creu. Mae hyn yn berthnasol ar gyfer strwythurau ffeilio i bapur a fformatau electronig gan gynnwys e-byst.<br>Papurau gweithio sydd yn arwain at adroddiad terfynol - (oni bai bod yr adroddiad yn cael ei roi i Bwyllgor - os felly dylai fod papurau ar gael am 6 mlynedd yn unol ag argaeledd y cofnodion ar gyfer arolygu cyhoeddus) | bod y defnydd wedi dod i ben | |

### 3. Materion Cyfreithiol a Chytundebau

| **Pwrpas** | **Cofnodion** | **Cadw** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|
| Cyngor (rhoi cyngor ar fater cyfreithiol) | Gohebiaeth | 3 blynedd | Arfer cyffredin |
| Cytundebau (ac eithrio cytundebau cytundebol) | Cytundebau lefel o wasanaeth gyda SCHTh | 6 blynedd ar ôl i'r cytundeb ddod i ben | Arfer cyffredin<br>Dibynnu ar werth y cytundeb<br>Yn bennaf yn ymwneud â chytundebau rhwng cyrff. Ddim ar gyfer cytundebau |
| Cael/gwaredu asedau | Dogfennau cyfreithiol sydd yn perthyn i brynu/gwerthu<br>Prydlesau,<br>Dogfennau tendro | Dinistrio 6 blynedd os dan £50,000<br>Dinistrio 12 blynedd os dros £50,000 | |
| Cyngor cyn gytundebol | Mynegi diddordeb | Dinistrio 2 flynedd ar ôl i'r | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gosod cytundeb neu beidio â symud ymlaen gydag ef | |
| Datblygu cytundeb (cyffredin) (dan law) | Manyleb tendro | 6 blynedd ar ôl i'r telerau ddod i ben | I gydymffurfio â chyfnod statudol o gyfyngder |
| Datblygu cytundeb (dan sêl) | Manyleb tendro | 12 blynedd ar ôl i'r telerau ddod i ben | Cyfnod statudol o gyfnod o gyfyngder |
| Cytundebau | Cofrestr seliau | Parhaol | |
| Rheoli Cytundebau (Gweithredu a Monitro) | Cytundebau lefel gwasanaeth Adroddiadau cydymffurfio<br>Adroddiadau perfformiad | 2 flynedd ar ôl i delerau'r cytundeb ddod i ben | Arfer cyffredin |
| Trosglwyddo | Ffeiliau trosglwyddo | Dinistrio 12 blynedd ar ôl cau | Statudol |
| Gwerthuso tendrau (cyffredin) | Meini prawf werthuso<br>Dogfen dendro llwyddiannus | 6 blynedd ar ôl i'r telerau ddod i ben | Statudol |
| Gwerthuso tendrau (dan sêl)) | Meini prawf gwerthuso Dogfennau tendro llwyddiannus | 12 o flynyddoedd ar ôl i'r telerau ddod i ben | Statudol |
| Cyfreitha | Gohebiaeth<br>Ffeiliau achosion troseddol a sifil | 7 mlynedd ar ôl y gweithrediad diwethaf | |
| Trafodaethau ôl dendro | Cofnodion<br>Gohebiaeth | 1 flwyddyn ar ôl i delerau'r cytundeb ddod i ben | Arfer cyffredin |
| Tendrau | Amlen dendro | 1 flwyddyn ar ôl i'r cytundeb ddechrau | Statudol |
| Dogfennau tendro aflwyddiannus | Dyfanbrisiau dogfennau tendro | Dinistrio 1 flwyddyn ar ôl i'r cytundeb ddod i ben | Arfer cyffredin |

## 4. Adnoddau Dynol

| Pwrpas | Cofnodion | Cadw | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| Penodi Swyddogion Statudol | Swyddi gwag a chofnodion o geisiadau<br>Nodiadau cyfweliadau,<br>cofnodion darpar staff,<br>cofrestrau ymgeiswyr<br>Cofnodion o ymgeiswyr aflwyddiannus<br>Cofnodion ceisiadau llwyddiannus | Dinistrio 2 flynedd wedi dyddiad y penodiad<br>Cadw o fewn ffeiliau personél (tan farwolaeth unigolyn) | Arfer cyffredin |
| Penodi CHTh | Treuliau / lwfansau / taliadau<br>Cofnod o gysylltiadau ariannol<br>Cofrestr rhoddion a llety | 6 blynedd ar ôl y cyfnod yn y swydd | |
| Ymchwiliadau disgyblu a chwyno (wedi eu profi) | Cofnodion Disgyblu | Rhybudd ar lafar – 6 mis<br>Rhybudd ysgrifenedig – 1 flwyddyn<br>Rhybudd terfynol- 18 mis<br>Diswyddiad - ar ôl penderfynu pob apêl fewnol ac allanol<br>2 flynedd | |
| | Cofnodion cwyno | 2 flynedd | |
| Ymchwiliadau disgyblu a chwyno (heb eu profi) | Cofnodion Disgyblu<br>Cofnodion cwyno | Dinistrio'n syth ar ôl yr apêl | |
| Tribiwnlysoedd Apeliadau'r Heddlu | Ffeiliau achos | 10 mlynedd ar ôl cwblhau'r adolygiad | Yn unol ag Arweiniad yr Archifdai Cenedlaethol |
| Cysylltiadau Gweithwyr | Cytundebau/trafodaethau / anghydfod | Parhaol | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gohebiaeth parthed trafodaethau ffurfiol<br>Gohebiaeth parthed mân faterion a materion arferol | 2 flynedd | |
| Cyfleoedd Cyflogi Cyfartal | Y broses archwilio ac adrodd am achosion penodol i sicrhau bod hawliau ac ymrwymiadau yn unol â pholisïau canllaw Cyfleoedd Cyflogi Cyfartal cytunedig | 5 ar ôl cwblhau'r gweithrediad | Arfer cyffredin |
| Tegwch ar Waith | Gohebiaeth a nodiadau | Trosglwyddo i'r Uned Amrywiaeth ar ôl cwblhau'r broses | |
| Adolygiad o berfformiad a datblygiad | Adroddiadau Prawf<br>Adroddiadau a chynlluniau perfformiad | Parhaol | |
| Gweinyddu Personél | Rhestrau'r sefydliad | Parhaol | |
| | Ffeiliau Personél | Cadw nes bydd y person yn marw | |
| Recriwtio– dewis unigolyn ar gyfer swydd sefydledig | Hysbysebion, ffurflenni cais, cyfeiriadau, adroddiadau cyfweliad | Ymgeiswyr aflwyddiannus = 1 flwyddyn ar ôl penodi<br>Ymgeiswyr llwyddiannus = Cadw o fewn ffeiliau personél (tan farwolaeth unigolyn) | |
| | Gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a dogfennaeth berthynol | Canlyniadau positif – 2 flynedd ar ôl dyddiad of y gwiriad<br>Canlyniadau negyddol - 1 flwyddyn ar ôl dyddiad y gwiriad | |
| Cofrestrau rhoddion a lletygarwch | Cofrestr Rhoddion a lletygarwch i staff | Parhaol | |
| Monitro gwyliau staff | Cofnodion salwch, pob cofnod gwyliau | 2 flynedd ar ôl cwblhau'r | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (salwch, rheithgor, astudio, gwyliau blynyddol ayyb.) cardiau hyblyg | gweithrediad | |
| Cadw Staff | Gwobr ariannol | Dinistrio 7 mlynedd ar ôl cwblhau'r gweithrediad | Mae pob cofnod sydd yn ymwneud â gwir daliadau yn cael ei drin dan gyllid |
| Gwaredu staff | Ymddiswyddo, diswyddo, gollwng, marwolaeth neu ymddeol | 6 blynedd ar ôl gorffen, neu os yw'n cael pensiwn, 6 blynedd ar ôl y talid pensiwn olaf | Arfer cyffredin |

## 5. Rheoli Ariannol

| Pwrpas | Cofnodion | Cadw | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| Adroddiadau blynyddol | Datganiad o gyfrifon Blynyddol | 6 blynedd | Arweiniad CThEM |
| Cymeradwyo / prosesu ar gyfer prynu | Archebion pwrcas/ gwerthu Apwyntiadau / dirprwyo | Dinistrio 6 blynedd, 6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol | Yn unol â pholisi heddlu Dyfed-Powys |
| Cael a gwaredu asedau | Rheoli caffael (drwy brydles ariannol o bwrcas) a gwaredu prosesu asedau (drwy werthu neu ddileu) | Dinistrio 6 blynedd, os dan £50,000 neu 12 o flynyddoedd os dros £50,000, ar ôl i bob rhwymedigaeth / hawl ddod i ben | Statudol |
| Monitro a chynnal asedau | Cofrestrau asedau | Dinistrio 6 blynedd a 6 mis ar ôl i'r eitem ddiwethaf gael ei gwaredu | Yn unol â Pholisi Heddlu-Dyfed Powys |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rhestrau eiddo<br>Cyfri stoc | Dinistrio 2 flynedd ar ôl defnydd gweinyddol | Arfer cyffredin |
| | Adroddiadau caffael a gwaredu adroddiadau<br>Cofnodion gwasanaethu / cynnal | Dinistrio 6 mlynedd a 6 mis ar ôl gwerthu neu waredu | Statudol |
| Gosod cyllid | Cyllid blynyddol terfynol | Parhaol | Dim ond fersiwn derfynol gofynion y cyllid blynyddol |
| | Cyllidau drafft ac amcan brisiau | Dinistrio 2 flynedd ar ôl gosod y cyllid | |
| | Arolygon cyllid chwarterol | Dinistrio ar ôl cadarnhau cyllid y flwyddyn ganlynol | |
| Gwariant | Anfonebau / derbynebau, Datganiadau banc, Talebau / cyfriflyfr, Dileu symiau arian cyhoeddus | Yr Adran Gyllid i'w dinistrio 6 blynedd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol | Yn unol â Pholisi Heddlu-Dyfed Powys |
| | Prosesau i fantoli a chysoni cyfrifon ariannol | Copïau ar gyfer y swyddfa -<br>Dinistrio 2 flynedd ar ôl i ddefnydd gweinyddol ddod i ben | |
| Adroddiadau ariannol | Adroddiadau<br>cyllid chwarterol,<br>Papurau gweithio,<br>Mân adroddiadau | Dinistrio 2 flynedd ar ôl i ddefnydd gweinyddol ddod i ben | |
| Archwiliad mewnol | Adroddiadau archwiliad mewnol- prif systemau ariannol ac is-systemau<br>Astudiaethau gwerth am arian<br>Papurau gweithio | Dinistrio blwyddyn ar ôl cwblhau'r archwiliad llawn nesaf o'r un faes busnes | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Archwiliadau dilynol | Dinistrio ar ôl cwblhau gweithredu'r argymhellion neu gwblhau'r archwiliad dilynol / archwiliad llawn nesaf | |
| Benthyciadau | Ffeiliau benthyciadau (benthyg arian i alluogi awdurdod i gyflwyno ei bwrpas a defnyddio ei rymoedd) | Dinistrio ar ôl talu'r benthyciad | Statudol |
| | Cofrestr benthyciadau<br>Crynodeb rheoli benthyciadau | Parhaol | Arfer cyffredin |
| Cyflogres | Ffurflenni hawlio<br>Cofnodion treth / cyflog<br>Adroddiadau tâl crynodol | Dinistrio 7 mlynedd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol | Statudol |
| | Prosesau sydd ddim yn atebol parthed talu gweithwyr | Dinistrio ar ôl i ddefnydd gweinyddol ddod i ben | Defnydd cyffredinol |

### 6. Rheoli Eiddo a Thir

| **Pwrpas** | **Cofnodion** | **Cadw** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|
| Yswiriant | Polisïau yswiriant<br>Gohebiaeth | Dinistrio 7 mlynedd ar ôl i'r telerau ddod i ben | |
| Rheoli adeiladau o ddiddordeb arbennig | Manylebau projectau<br>Cynlluniau<br>Tystysgrifau cymeradwyo<br>Darluniau 'fel yr adeiladwyd' a llawlyfrau cynnal a chadw gweithredol | Parhaol | |
| Rheoli adeiladau | Rhestrau meintiau prosiect<br>Tendrau a dderbyniwyd, cytundebau gyda chontractwyr/ymgynghorwyr, darluniau Ymgynghorwyr a | 16 mlynedd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Chontractwyr, amserlenni/dyddiaduron cynnal a chadw, arolygon gosod, rhaglen gynnal a chadw, cofrestrau blaenraglenni cynnal a chadw. | | |
| Rheoli eiddo lesddaliad | Lesau<br>Memorandwm telerau<br>Cydsyniadau landlordiaid<br>Trwyddedau<br>Gohebiaeth gyda chwmnïau cyfleustodau/cyfathrebiadau | Dinistrio 6 blynedd 6 mis ar ôl i bob ymrwymiad orffen | |
| Cael eiddo | Cynlluniau | Oes yr eiddo a 12 blynedd | |
| Gwaredu eiddo | Dogfennau cyfreithiol Adroddiadau arolwg<br>Dogfennau tendro<br>Telerau cytundebau | Dinistrio 6 blynedd 6 mis ar ôl i bob ymrwymiad orffen | Yn unol â Pholisi Heddlu-Dyfed Powys |

**7. Cyffredinol**

| **Pwrpas** | **Cofnodion** | **Cadw** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|
| Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth | Datgeliadau | 2 flynedd ar ôl datgelu neu gwblhau unrhyw apêl | Yn unol â Pholisi Heddlu-Dyfed Powys |
| Ceisiadau testun am wybodaeth | Datgeliadau | 2 flynedd o’r datgeliad neu ar ôl cwblhau unrhyw apêl leol neu apêl i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth | Yn unol â Pholisi Heddlu-Dyfed Powys a’r safon genedlaethol |
| Iechyd a Diogelwch | Asesiadau risg | Archifo | Yn unol â Pholisi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Llyfrau damwain / tystysgrifau tân a gohebiaeth mewn perthynas ag adrodd am anafiadau, clefydau a digwyddiadau | Dinistrio ar ôl 3 blynedd | Heddlu-Dyfed Powys |
| | Archwiliadau, cofnodion a gwybodaeth am waredu asbestos. | 40 mlynedd | |